ATODLEN 8

Amcanion ansawdd data

# RHAN 3

## Osôn a nitrogen deuocsid a asesir mewn pwyntiau samplu osôn

**16.** Mae'r amcanion ansawdd data sydd wedi eu nodi yn y tabl a'r paragraffau isod, ar gyfer ansicrwydd a ganiateir o ddulliau asesu, lleiafswm yr amser a gwmpesir a lleiafswm y data a gipir yn sgil mesur, yn cael eu darparu fel canllawiau i raglenni sicrhau ansawdd—

| | *Ar gyfer osôn, NO a NO2 a asesir mewn pwyntiau samplu osôn* |
|---|---|
| *Mesur sefydlog parhaus* | |
| Ansicrwydd mesuriadau unigol | 15% |
| Lleiafswm y data a gipir | 90% yn ystod yr haf; 75% yn ystod y gaeaf |
| *Mesur dangosol* | |
| Ansicrwydd mesuriadau unigol | 30% |
| Lleiafswm y data a gipir | 90% |
| Lleiafswm yr amser a gwmpesir | >10% yn ystod yr haf |
| *Modelu* | |
| Ansicrwydd | |
| Cyfartaleddau 1 awr (yn ystod y dydd) | 50% |
| Mwyafswm 8 awr y dydd | 50% |
| *Amcangyfrif gwrthrychol* | |
| Ansicrwydd | 75% |

**17.** Mae'n rhaid i'r ansicrwydd (ar gyfwng hyder 95%) am y dulliau mesur gael eu gwerthuso yn unol â'r egwyddorion sydd wedi eu nodi yn y "Arweiniad i Fynegi Ansicrwydd Mesuriadau" (ISO 1993) neu'r fethodoleg yn ISO 5725-1 "Manwl gywirdeb (gwiredd a thrachywiredd) dulliau a chanlyniadau mesuriad" (ISO 1994) neu'n gywerth. Rhoddir y canrannau ar gyfer ansicrwydd yn y tabl ar gyfer mesuriadau unigol, ar gyfartaledd dros y cyfnod ar gyfer cyfrifo gwerthoedd targed ac amcanion hirdymor, ar gyfer cyfwng hyder 95%. Dylai'r ansicrwydd ar gyfer mesuriadau sefydlog parhaus gael ei ddehongli fel ei fod yn gymwys o gwmpas y crynodiad a ddefnyddir ar gyfer y trothwy priodol.

**18.** Mae'r ansicrwydd ar gyfer modelu ac amcangyfrif gwrthrychol yn golygu yr amrywiad mwyaf o'r lefelau crynodiad a fesurwyd ac a gyfrifwyd, yn ystod y cyfnod ar gyfer cyfrifo'r trothwy priodol, heb ystyried amseriad y digwyddiadau.

**19.** Ystyr "yr amser a gwmpesir" ("time coverage") yw'r canran o amser a ystyriwyd ar gyfer setlo'r gwerth trothwy pan gaiff y llygrydd ei fesur.

**20.** Ystyr "y data a gipir" ("data capture") yw cymhareb yr amser y mae'r offeryn yn cynhyrchu data dilys, i'r amser y mae'r paramedr ystadegol neu werth gyfun sydd i gael ei gyfrifo.